OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2929

## Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006

**Manylion ar wahân**

**16.** Yn ddarostyngedig i rheoliad 17, rhaid i berson sy'n gwerthu tatws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol, tatws hadyd ardystiedig neu datws hadyd sydd i'w profi a'u treialu ddyroddi i'r prynwr, dim hwyrach na 14 o ddiwrnodau ar ôl y gwerthiant, neu os nad yw'r tatws hadyd yn cael eu danfon ar adeg y gwerthiant, heb fod yn hwyrach na 14 o ddiwrnodau ar ôl eu danfon, nodyn gwerthiant, nodyn danfon, anfoneb neu ddogfen gyffelyb yn pennu, o ran y tatws hadyd, y manylion a bennir yn Atodlen 7.